# Taflen Ffeithiau Budd-daliadau a Chyngor
# Canllaw i Ofalwyr

Rydych yn ofalwr os ydych yn helpu perthynas, cymydog neu ffrind gyda thasgau yn y cartref yn rheolaidd. Mae tasgau yn y cartref yn cynnwys helpu gyda siopa, gofal personol neu ofal meddygol, er enghraifft eu hatgoffa i gymryd eu meddyginiaeth. Dyma ganllaw ar y cymorth sydd ar gael i chi.

## Lwfans Gofalwr

Os ydych yn gofalu am rywun sy'n sâl neu rywun sydd ag anabledd difrifol ac nad ydych yn gweithio nac yn astudio'n llawn amser, mae bosibl y gallwch gael Lwfans Gofalwr. Rhaid i chi fod yn 16 oed neu'n hŷn a gofalu amdanynt o leiaf 35 awr yr wythnos. Rhaid i'r sawl rydych yn gofalu amdano fod yn derbyn un o'r canlynol:

- cyfradd ganolig neu uwch elfen gofal y Lwfans Byw i'r Anabl,
- elfen bywyd beunyddiol y Taliad Annibyniaeth Personol,
- Lwfans Gweini,
- Lwfans Gweini Cyson, neu
- Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog.

Gallwch hawlio Lwfans Gofalwr ar-lein - gweler dros y dudalen os oes angen help arnoch i'w hawlio.

- am ragor o wybodaeth ewch i **www.gov.uk/carers-allowance**
- neu ffoniwch **0845 608 4321**

Os ydych yn hawlio Budd-dal Tai neu'n ystyried ei hawlio, gweler yr adran isod.

## Diogelu eich pensiwn

Mae swm Pensiwn y Wladwriaeth a gewch yn seiliedig ar y cyfraniadau Yswiriant Gwladol a dalwyd gennych ac unrhyw gyfraniadau o'r fath a gredydwyd i chi. Os ydych yn gofalu am rywun, mae bosibl bod gennych yr hawl i gael credydau Yswiriant Gwladol gofalwr. Caiff y credydau hyn eu rhoi'n awtomatig os ydych yn cael Cymhorthdal Incwm a Lwfans Gofalwr.

Os nad ydych yn gymwys i gael Lwfans Gofalwr ond eich bod yn gofalu am o leiaf un person am 20 awr neu fwy yr wythnos, gallwch wneud cais am Gredyd Gofalwr wythnosol tuag at eich pensiwn.

- i gael mwy o wybodaeth ewch i **www.gov.uk/carers-credit**
- neu ffoniwch **0845 608 4321**

## Budd-dal Tai

Os yw'r sawl rydych yn gofalu amdano yn hawlio Budd-dal Tai a'ch bod yn aros dros nos yn rheolaidd yn ei eiddo, mae'n bosibl y gallant hawlio am ystafell wely ychwanegol.

Os ydych yn hawlio Budd-dal Tai, gellir cynyddu'r swm a gewch os ydych yn derbyn Lwfans Gofalwr hefyd.

- i gael mwy o wybodaeth ewch i **www.caerdydd.gov.uk/budd-daliadau**
- neu ffoniwch **029 2087 2088**


**Ein Manylion Cyswllt**

**Rhadbost** : **RHADBOST BUDD-DALIADAU TAI CYNGOR CAERDYDD,** Blwch SP 6000, Caerdydd, CF11 0WZ
**Ffôn:** 029 2087 2088
**Ffacs:** 029 2087 7034
**E-bost:** budd-daliadau@caerdydd.gov.uk
**Gwefan:** www.caerdydd.gov.uk/budd-daliadau


CARDIFF
CAERDYDD

## Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor

Mae'r Dreth Gyngor yn seiliedig ar ddau oedolyn yn byw mewn eiddo.  O dan rhai amgylchiadau, gellir diystyru person at ddibenion y Dreth Gyngor.  Os mai dim ond un oedolyn nad yw'n cael ei ddiystyru sydd yn yr eiddo, gall gostyngiad o 25% fod yn gymwys.   Mae gofalwyr yn un o'r categorïau o bobl y gellid eu diystyru.

I fod yn gymwys fel gofalwr at ddibenion y Dreth Gyngor, rhaid i chi fodloni'r amodau canlynol:-

- yn byw gyda'r sawl rydych yn gofalu amdano,
- yn gofalu am rywun heblaw eich partner neu eich plentyn (dan 18 oed),
- yn rhoi gofal am o leiaf 35 awr yr wythnos,
- yn gofalu am rywun sy'n derbyn un o'r canlynol:
  - Lwfans gweini,
  - Cyfradd uchaf neu ganolig elfen gofal y Lwfans Byw i'r Anabl,
  - Y naill gyfradd neu'r llall o elfen bywyd beunyddiol y Taliad Annibyniaeth Personol.

Gall rhywun fod â mwy nag un gofalwr, a hyd yn oed os yw pawb yn yr eiddo, gan gynnwys y sawl sy'n derbyn gofal yn cael eu diystyru (e.e. os oes ganddynt Nam Meddyliol Difrifol), mae'n bosibl y gallai gostyngiad o 50% fod yn gymwys mewn achosion o'r fath.

Os ydych o'r farn y gallai hyn effeithio arnoch, mae croeso i chi gysylltu â swyddfa'r Dreth Gyngor.

- i gael rhagor o wybodaeth ewch i **www.caerdydd.gov.uk/ydrethgyngor**
- neu ffoniwch **029 2087 2088**

## Help o ran dod o hyd i gyflogaeth a mynd ar-lein

Os ydych am wneud gwaith cyflogedig yn ogystal â gofalu, neu ddod i hyd i waith ar ôl gorffen bod yn ofalwr, gall y Gwasanaeth i Mewn i Waith eich helpu.  Gall y Gwasanaeth i Mewn i Waith eich helpu i wneud cais am swydd newydd, gwella eich CV neu ddysgu sgiliau newydd megis sgiliau cyfrifiadurol sylfaenol.

Os oes angen help arnoch i fynd ar-lein, rydym yn cynnig sesiynau galw heibio di-dâl ac anffurfiol yn Hyb y Llyfrgell Ganolog, Canolfan Fenter Llaneirwg a 10 lleoliad arall ledled Caerdydd.

- i gael rhagor o wybodaeth ewch i **www.cardiffhousing.co.uk/advicehub**
- neu ffoniwch **029 2087 1000**

## Cynllun Bathodyn (Glas) Car

Mae bathodyn car ar gael i'r rheini sy'n cael rhyw fath o fudd-dal symudedd neu'r rheini sydd yn methu â cherdded neu'n ei chael hi'n anodd cerdded.  Gall deiliaid bathodynnau barcio yn y mannau canlynol:

- **meteri parcio** - yn ddi-dâl ac am gyhyd ag sydd angen
- **mannau parcio aros cyfyngedig** - am gyhyd ag sydd angen
- **rhai llinellau melyn** -  am hyd at 3 awr
- **rhai mannau parcio neilltuedig**

Os oes gan y sawl rydych yn gofalu amdano fathodyn glas, gallwch ei ddefnyddio pan fyddant yn teithio yn eich car.

- i gael rhagor o wybodaeth ewch i **www.caerdydd.gov.uk**
- eu ffoniwch **029 2087 3232**

**Mae help ar gael mewn sawl iaith yn yr Hybiau.**

**Canllaw cyffredinol yn unig yw'r daflen hon, ac ni ddylid ei hystyried yn ddatganiad cynhwysfawr ac awdurdodol o'r gyfraith.**